Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd

Mehefin 2012

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **1**

Prif ganfyddiadau **2**

Safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus 2
Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus 2
Cymorth a her gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion 3
Effaith strategaeth Llywodraeth Cymru 4

Argymhellion **5**

1 Safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus **6**

Cyfnod allweddol 3 6
Cyfnod allweddol 4 8

2 Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus **9**

Polisi ac arweinyddiaeth 9
Cwricwlwm a phontio 9
Darparu adnoddau a chymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion 10
Nodi, asesu ac olrhain 11
Rôl rhieni a gofalwyr 12

3 Cymorth a her gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion **13**

4 Effaith strategaeth Llywodraeth Cymru **14**

Atodiad 1: Astudiaethau achos

Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Atodiad 3: Enghreifftiau o wledydd Ewropeaidd

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Cyflwyniad

1 Hwn yw'r ail mewn cyfres o adroddiadau ar gefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion. Fe'i lluniwyd i ymateb i gais am gyngor yn adroddiad cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2011-2012. Edrychodd yr adroddiad cyntaf yn y gyfres ar gymorth mewn ysgolion cynradd ac fe'i cyhoeddwyd ym Mehefin 2011. Diben yr adroddiad arolwg hwn yw:

- arfarnu ansawdd ac effeithiolrwydd y strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion uwchradd ac awdurdodau lleol i gefnogi a herio disgyblion mwy abl a dawnus;
- amlygu enghreifftiau o arfer dda a'i heffaith ar ddisgyblion;
- nodi gwendidau a bylchau yn y ddarpariaeth; ac
- arfarnu pa mor llwyddiannus fu arweiniad a hyfforddiant Llywodraeth Cymru wrth wella darpariaeth a safonau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.

Mae naw astudiaeth achos arfer dda yn Atodiad 1 ac mae'r adroddiad yn defnyddio'r ystod o dystiolaeth a nodwyd yn Atodiad 2.

Cefndir

2 Mae herio dysgwyr mwy abl a dawnus i berfformio'n well yn flaenoriaeth genedlaethol. Ym Mai 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen arweiniad ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol o'r enw 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog'. Ychwanegodd hyn at yr arweiniad a gyhoeddwyd gan ACCAC yn 2003, 'Cwricwlwm o Gyfle: Datblygu Potensial yn Berfformiad'.

3 Yn yr arweiniad hwn, mae'r term 'mwy abl a dawnus' yn cyfeirio at ryw 20% o ddisgyblion y mae angen cyfleoedd cyfoethog ac estynedig arnynt i ddatblygu eu galluoedd neu'u doniau mewn un maes neu fwy. Ym mhob ysgol, mae'r disgyblion mwy abl a dawnus hyn yn cynnwys y rhai sy'n fwy abl ar draws y cwricwlwm ac y gallent gyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig yn yr asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol a graddau uwch mewn TGAU. Maent hefyd yn cynnwys disgyblion sy'n dangos gallu neu sy'n arbennig o ddawnus mewn un maes penodol neu fwy, fel cerddoriaeth, drama, celf neu chwaraeon.

4 Mae arweiniad Llywodraeth Cymru, 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog' yn rhoi cyngor ymarferol i awdurdodau lleol ac ysgolion. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel offeryn datblygiadol gan ysgolion sydd dim ond megis dechrau eu darpariaeth ysgol gyfan ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Gall ysgolion sydd eisoes wedi datblygu polisïau ac arferion ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ddefnyddio'r safonau ansawdd i archwilio eu darpariaeth a chynllunio ar gyfer gwella. Hefyd, gall ysgolion sydd â darpariaeth a systemau cynllunio gweithredu sefydledig ei ddefnyddio i asesu eu darpariaeth yn fwy ffurfiol a cheisio ennill marc safon 'Y Dyfarniad Her'.

5 Yng Nghymru, anogir ysgolion i fodloni anghenion pob dysgwr, yn cynnwys y disgyblion mwy abl a dawnus trwy gynllunio gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer grwpiau ac unigolion yn eu dosbarthiadau. Mae gwledydd Ewropeaidd eraill yn darparu ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol. Mae Atodiad 3 yn disgrifio'r modd y mae rhai gwledydd Ewropeaidd yn cefnogi anghenion disgyblion mwy abl a dawnus.

Prif ganfyddiadau

Safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus

6 Nid yw disgyblion mwy abl a dawnus yng Nghymru yn cyflawni cystal â disgyblion mwy abl a dawnus yn Lloegr. Nid oes digon o ddisgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru yn cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig am eu hoedran (lefel 5) mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 ym mhynciau craidd Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 4, nid oes digon o ddisgyblion 16 oed yn cyflawni graddau uwch A/A* yn y pynciau craidd.

7 Mae adroddiadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) ar gyfer 2007 a 2010, sy'n asesu perfformiad myfyrwyr yn 15 oed mewn ysgolion ar draws mwy na 50 o wledydd yr OECD (Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd), yn awgrymu mai prin yw'r rhai sy'n cyflawni'n uchel yng Nghymru o gymharu â'r gwledydd sy'n perfformio orau yn y byd.

8 Yn y nifer fach o ysgolion lle mae disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni eu llawn botensial, mae'r strategaethau addysgu a dysgu da neu ragorol a fabwysiadwyd ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn cael effaith gadarnhaol ar wella canlyniadau arholiadau. Yn yr ysgolion prin hyn, caiff pob grŵp o ddisgyblion ei herio'n briodol ar draws y cwricwlwm yn aml.

Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus

9 Yn yr ysgolion prin sydd â'r ddarpariaeth orau, caiff disgyblion mwy abl a dawnus eu nodi, eu cefnogi a'u herio'n briodol ac maent yn cyflawni safonau uchel. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio cyfuniad o asesiadau athrawon, profion safonol, arsylwi a holiaduron rhieni a disgyblion i nodi cryfderau a doniau penodol disgyblion, a rhennir y wybodaeth hon gyda phob un o'r staff. Caiff disgyblion eu cefnogi'n dda trwy ystod o ddarpariaeth ychwanegol, ac fe gaiff eu cynnydd ei olrhain a'i fonitro'n ofalus ar draws pob cyfnod allweddol. Mae dulliau cyson, ysgol gyfan ar gyfer addysgu a dysgu. Mae cydlynydd 'mwy abl a dawnus' yn goruchwylio gweithredu'r polisi a'r arfer ac mae'n monitro'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Caiff rhieni eu cynnwys yn llawn hefyd. Mae rhai ysgolion wedi sefydlu gweithgorau 'mwy abl a dawnus', grwpiau arweinyddiaeth neu grwpiau ffocws i gefnogi disgyblion mwy abl a dawnus a chynnig hyfforddiant ysgol gyfan i staff.

10 Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd, ni chaiff disgyblion mwy abl a dawnus eu nodi na'u herio'n ddigon da, ac nid ydynt yn cael cymorth priodol bob amser. Nid yw prosesau nodi, olrhain a monitro yn gadarn yn yr ysgolion hyn, a phrin yw'r hyfforddiant i staff ar sut i weithio gyda disgyblion mwy abl a dawnus.

11 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa ar gwricwlwm sy'n hyrwyddo:

- dulliau unigol neu bersonol o ddysgu;
- trefnu bod athrawon arbenigol ar gael;
- rheolaeth dros sut a beth y maent yn ei ddysgu; a
- sesiynau mentora i'w cefnogi i wneud dewisiadau ynghylch opsiynau a gyrfa.

12 Nid yw trefniadau pontio rhwng y mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd yn darparu digon o barhad a dilyniant yn addysg disgyblion mwy abl a dawnus. Er enghraifft, dim ond ychydig o ysgolion uwchradd sy'n gofyn i athrawon mewn ysgolion cynradd nodi dysgwyr mwy abl a dawnus ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 gan ddefnyddio meini prawf cytûn. Pan mae ansawdd y pontio rhwng ysgolion yn dda, caiff hyn effaith sylweddol ar gyflawniad hirdymor disgyblion mwy abl a dawnus.

13 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa'n sylweddol ar ddarpariaeth ychwanegol sydd wedi'i hanelu'n benodol at ddatblygu eu galluoedd a'u doniau ac yn cynnig cyfleoedd i weithio gyda disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion eraill. O'i chyfyngu i'r ddarpariaeth mewn un ysgol yn unig, gallai ansawdd y cymorth ac ehangder y cyfleoedd ychwanegol ddibynnu'n ormodol ar fedrau a gwybodaeth arbenigol athrawon a thiwtoriaid ac adnoddau yn yr ysgol honno.

14 Mewn ychydig iawn yn unig o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt y caiff disgyblion o gefndiroedd difreintiedig gymorth penodol i oresgyn rhwystrau rhag eu dysgu fel dyhead isel neu gyfle cyfyngedig i fanteisio ar gyfleoedd allgyrsiol.

15 Mae cyfathrebu effeithiol gyda rhieni yn ffactor allweddol yn yr ysgolion prin lle caiff disgyblion mwy abl eu herio'n llwyddiannus i gyrraedd safonau uchel. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif sylweddol o ysgolion yn rhoi gwybod i rieni'n rheolaidd bod eu plant wedi cael eu nodi'n blant sy'n fwy abl a dawnus.

Cymorth a her gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion

16 Mae gormod o amrywiad yn y cymorth a'r her y mae awdurdodau lleol yn eu rhoi i ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'r cymorth a'r her yn rhy ddibynnol ar fedrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y swyddog sy'n gyfrifol am ddatblygu'r ddarpariaeth i ddysgwyr mwy abl a dawnus ym mhob awdurdod a'r amser a neilltuir ar gyfer y gwaith hwn.

17 Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae ysgolion uwchradd o dan eu harweinyddiaeth wedi sefydlu rhwydweithiau o arfer broffesiynol sy'n canolbwyntio ar wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Dim ond ychydig o awdurdodau lleol sy'n mynd ati i hyrwyddo rhannu arfer orau rhwng ysgolion.

18 Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r data sydd ar gael i fonitro cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus. Anaml y mae swyddogion gwella ysgolion yn cael trafodaeth fanwl am y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus fel grŵp o ddisgyblion yn ystod eu hymweliadau ag ysgolion.

Effaith strategaeth Llywodraeth Cymru

19 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, ynghyd â ffrydiau ariannu cysylltiedig, wedi arwain at raddau amrywiol o welliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Ers cyhoeddi 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog' (Llywodraeth Cymru/y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg, 2008), mae mwy o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu addysg disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'r arweiniad a'r safonau ansawdd yn cynnig ffordd ymarferol i ysgolion ac awdurdodau lleol archwilio a gwella eu darpariaeth.

20 Mae Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE) yn darparu cymorth effeithiol trwy gynadleddau a hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion. Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau lleol wedi manteisio'n llawn ar yr hyfforddiant hwn ac nid yw lleiafrif sylweddol o ysgolion yn ymwybodol o'r arweiniad sydd ar gael. Mae hyn yn golygu nad ydynt wedi ymateb mor effeithiol ag y gallent i strategaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru, ac nid ydynt wedi gwneud digon o gynnydd wrth wella darpariaeth a gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl a dawnus.

21 Mae bron pob ysgol lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn dda yn defnyddio safonau ansawdd Llywodraeth Cymru/NACE yn effeithiol i gefnogi eu gwaith, fel arfer trwy eu defnyddio fel offeryn archwilio neu hunanasesu. Dim ond ychydig iawn o ysgolion uwchradd sy'n defnyddio'r safonau ansawdd i baratoi ar gyfer Dyfarniad Her NACE.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

A1 adeiladu ar y trefniadau pontio presennol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i ddarparu parhad a dilyniant gwell yn addysg disgyblion mwy abl a dawnus;

A2 gwella'r defnydd o ddata ac asesu i nodi, olrhain a monitro cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus a rhannu'r wybodaeth hon gyda'r holl staff a'r rhieni perthnasol;

A3 darparu cyfleoedd cyfoethog a darpariaeth sy'n cynnig her briodol ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion mwy abl a dawnus gyflawni'r safonau uchaf;

A4 sicrhau bod disgyblion mwy abl a dawnus o gefndiroedd difreintiedig yn cael cymorth penodol i oresgyn rhwystrau rhag dysgu;

A5 darparu mentora ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus i'w helpu i wneud y dewisiadau gorau o ran gweithgareddau allgyrsiol, opsiynau a gyrfa;

A6 hyfforddi arweinwyr ysgol, athrawon a staff cymorth ar sut i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus a defnyddio rhwydweithiau o arfer broffesiynol i rannu arfer orau; a

A7 gwella dealltwriaeth rhieni o'r modd y gallant gefnogi addysg eu plentyn mwy abl neu ddawnus yn well.

Dylai awdurdodau lleol:

A8 hyfforddi swyddogion gwella ysgolion ar sut i nodi, cefnogi, olrhain, monitro ac arfarnu cynnydd disgyblion mwy abl a dawnus; a

A9 defnyddio data yn fwy effeithiol i arfarnu tueddiadau dros gyfnod yng nghyflawniad disgyblion mwy abl a dawnus.

1 Safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus

Cyfnod allweddol 3

22 Yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer 2008-2009 a 2009-2010, amlygwyd tangyflawniad disgyblion mwy abl a dawnus, a dywedwyd bod angen i ysgolion wneud mwy i helpu disgyblion mwy abl i gyflawni eu potensial. Nid oes digon o ddisgyblion uwchradd yng Nghymru yn cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig am eu hoedran (lefel 5) mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 ym mhynciau craidd Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.



[1]

23 Rhwng 2008 a 2011, bu gwelliant cyson yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 ym mhob un o'r pynciau craidd, ynghyd â chyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6 mewn mathemateg. Fodd bynnag, ychydig iawn o gynnydd a fu yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 7 neu'n uwch mewn Cymraeg neu Saesneg a gwyddoniaeth. Mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni lefel 7 neu'n uwch mewn mathemateg wedi cynyddu'n gyson er 2008 ac mae gryn dipyn yn uwch nag ydyw yn y pynciau craidd eraill.

24 Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is yng Nghymru nag yn Lloegr. Yn 2010, roedd canran y disgyblion yng Nghymru a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg yn 72% o gymharu â 79% yn Lloegr, mewn mathemateg, roedd yn

[1] Mae'r siartiau ar gyfer cyfnod allweddol 3 yn cynnwys ysgolion uwchradd a gynhelir yn unig

75% yng Nghymru o gymharu ag 80% yn Lloegr, ac mewn gwyddoniaeth, roedd yn 77% yng Nghymru o gymharu ag 80% yn Lloegr.[2]

25 Yn ychwanegol, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn is yng Nghymru nag yn Lloegr yn 2010 a 2011. Yn 2011, roedd canran y disgyblion yng Nghymru a gyflawnodd lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg yn 35% o gymharu â 47% yn Lloegr, mewn mathemateg, roedd yn 47% yng Nghymru o gymharu â 59% yn Lloegr, ac yn 39% mewn gwyddoniaeth yng Nghymru, o gymharu â 51% yn Lloegr.



26 Mae mwy o amrywioldeb yn 2010 a 2011 yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6 neu'n uwch ar draws y pynciau sylfaen nag yn y pynciau craidd, ac mae cryn dipyn yn llai o ddisgyblion yn cyflawni lefel 6 neu'n uwch mewn lleiafrif o bynciau sylfaen yn cynnwys cerddoriaeth, Cymraeg ail iaith, addysg gorfforol a dylunio a thechnoleg.

[2] Perfformiad mewn Asesiadau ac Arholiadau yng Nghymru: Cymhariaeth gyda Lloegr a'i Ranbarthau, 2010

Cyfnod allweddol 4

27 Nid oes digon o ddisgyblion uwchradd yng Nghymru yn cyflawni'r graddau A* neu A uwch mewn TGAU ym mhynciau craidd Saesneg a/neu Gymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg. Ychydig iawn o gynnydd fu yng nghanran y disgyblion 15 oed a gyflawnodd y graddau hyn rhwng 2008 a 2010, er y bu gwelliant o 8.0% yn 2010 i 8.5% yn ddiweddar yn 2011. Cyflawnodd canran uwch o ferched na bechgyn raddau A* neu A yn ystod y cyfnod hwn. Yn 2011, cyflawnodd 9.9% o ferched y graddau hyn o gymharu â 7.1% o fechgyn. Mae'n anodd cymharu cyflawniadau disgyblion yng Nghymru â chyflawniadau disgyblion yn Lloegr yn uniongyrchol, gan fod y data yn cael ei fesur yn wahanol.



28 Mae adroddiad y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn asesu perfformiad myfyrwyr yn 15 oed mewn ysgolion ar draws mwy na 50 o wledydd OECD (Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd). Mae adroddiadau PISA yn 2007 a 2010 yn nodi bod cyfran sylweddol o fyfyrwyr yn cyflawni safonau islaw cyfartaledd y DU ac OECD mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yng Nghymru, a bod sgôr gymedrig myfyrwyr yng Nghymru gryn dipyn islaw sgôr gymedrig myfyrwyr yn Lloegr.

29 Mae'r ddau adroddiad yn gweld bod cyfran y dysgwyr 15 oed sy'n cyflawni'r lefelau uchaf mewn mathemateg a darllen islaw cyfartaledd yr OECD. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod llai yn cyflawni'n uchel yng Nghymru, o gymharu â'r gwledydd sy'n perfformio orau yn y byd.

30 Mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus mewn rhai o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn dangos bod pob un o'r disgyblion hyn yn cyflawni lefelau a graddau uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae hyn yn aml o ganlyniad i gael ffocws ysgol gyfan ar wella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl a dawnus. Yn yr ysgolion hyn, caiff pob disgybl ei herio i gyrraedd ei botensial a'i annog i gael dyheadau uchel. Mae athrawon yn disgwyl i ddisgyblion gyflawni orau y gallant.

31 Yn y lleiafrif o sesiynau a arsylwyd yn ystod yr arolwg hwn lle mae ansawdd cyflawniadau disgyblion yn dda iawn, mae disgyblion yn llawn cymhelliant, yn awyddus i ddysgu, yn cael eu herio'n fawr i gyflawni eu potensial ac yn cael eu hannog i feddwl yn greadigol. Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn siarad yn hyderus ac yn aeddfed ac yn addasu eu harddull yn effeithiol yn unol â'r cyd-destun, y testun a'r gynulleidfa. Mae llawer ohonynt yn mynegi barn gydag argyhoeddiad ac yn cefnogi'r barnau hyn yn effeithiol gyda dadleuon meddylgar, rhesymegol.

2 Darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus

Polisi ac arweinyddiaeth

32 Mae'r polisi ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd wedi cael ei ffurfio gan ddogfennaeth Llywodraeth Cymru a NACE. Mae gan y mwyafrif o ysgolion bolisi clir a chryno, sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd a'i ddosbarthu i randdeiliaid allweddol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol o ysgolion naill ai wedi diweddaru eu polisi ac nid ydynt yn cyfleu eu polisi a'u harferion ar gyfer cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus yn ddigon effeithiol ychwaith. Mae rhai ysgolion yn lledaenu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ar ffurf pecyn canllawiau, ynghyd â'r polisi, sy'n cynnwys awgrymiadau sy'n benodol i bwnc a dulliau addysgu sy'n briodol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Mae mwyafrif o bolisïau yn diffinio rolau a chyfrifoldebau staff, ond ychydig iawn ohonynt sy'n crybwyll rôl a chyfrifoldebau rhieni a'r disgyblion eu hunain.

33 Mae gan bron bob ysgol gydlynydd ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus sy'n goruchwylio'r ddarpariaeth ar eu cyfer ar draws yr ysgol. Yn y nifer fach o ysgolion sydd â darpariaeth dda iawn, mae'r cydlynydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl. Mae'r unigolyn sy'n gyfrifol naill ai'n uwch arweinydd ysgol neu mae aelod o'r uwch dîm rheoli yn rheolwr llinell agos arno/arni.

34 Mae rhai ysgolion wedi sefydlu gweithgorau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus, grwpiau arweinyddiaeth neu grwpiau ffocws i ddatblygu proffil disgyblion mwy abl a dawnus ymhellach yn yr ysgol ac i ddarparu hyfforddiant i'r ysgol gyfan. Mae un ysgol yr ymwelwyd â hi fel rhan o'r arolwg wedi sefydlu rhwydwaith o arfer broffesiynol gyda dwy ysgol leol yn eu teulu o ysgolion ac wedi trefnu 'Cynhadledd Disgyblion Abl'. Mae ysgolion eraill yn gweithio gyda'i gilydd i dargedu disgyblion mwy abl a dawnus mewn pynciau penodol fel gwyddoniaeth a mathemateg.

Cwricwlwm a phontio

35 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn yr ysgolion prin sydd â darpariaeth dda iawn yn cael manteisio ar gwricwlwm hyblyg a heriol gydag ystod eang o ddewisiadau cwricwlaidd. Mae gweithgareddau allgyrsiol sy'n briodol heriol ar gael iddynt hefyd, sy'n cyfoethogi a gwella eu dysgu. Mae'r ysgolion hyn yn hyrwyddo dulliau unigol neu bersonol o ddysgu, ac yn sicrhau bod athrawon arbenigol ar gael i ddisgyblion mwy abl a dawnus a bod ganddynt reolaeth dros sut a beth y maent yn ei ddysgu, yn ogystal â sesiynau mentora i'w cefnogi wrth wneud dewisiadau am weithgareddau allgyrsiol, opsiynau a gyrfa. Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa ar gyfleoedd i weithio gyda disgyblion eraill mwy abl a dawnus.

36 Mae **astudiaethau achos 3, 5, 7** a **9** yn **atodiad 1** yn darparu enghreifftiau o'r modd y mae ysgolion wedi addasu eu cwricwlwm i gynnig mwy o her neu ehangder o ran gweithgareddau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.

37 Nid yw'r trefniadau pontio rhwng y mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd yn darparu digon o barhad a dilyniant yn addysg disgyblion mwy abl a dawnus. Mae ysgolion uwchradd yn gofyn i'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo am ddata ynglŷn â deilliannau disgyblion, ond nid ydynt yn arfarnu'r modd y mae athrawon pwnc unigol yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio i herio disgyblion mwy abl a dawnus i gyflawni eu potensial ar draws pob maes pwnc.

38 Nifer fach o ysgolion uwchradd yn unig sy'n gofyn i athrawon mewn ysgolion cynradd nodi dysgwyr mwy abl a dawnus ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 gan ddefnyddio meini prawf cytûn. Ychydig iawn o ysgolion uwchradd sy'n gofyn i rieni disgyblion ym Mlwyddyn 6 nodi meysydd lle mae eu plant yn fwy abl neu ddawnus neu'n trefnu diwrnodau pontio, prosiectau neu ysgolion haf ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'r trefniadau hyn, lle maent yn bodoli, yn arwain at ddeilliannau gwell i'r disgyblion hyn.

39 Mae **astudiaeth achos 4** yn **atodiad 1** yn dangos y modd yr aeth Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ym Mro Morgannwg ati i nodi disgyblion mwy abl a dawnus yn gynnar, a gwella'r trefniadau pontio.

Darparu adnoddau a chymorth a her ychwanegol ar gyfer ysgolion

40 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, caiff adnoddau ariannol a dynol ychwanegol eu neilltuo i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi cael adnoddau ychwanegol ac yn gwerthfawrogi cymorth ychwanegol gan athrawon a thiwtoriaid arbenigol. Mae rhai ysgolion yn cynnig grwpiau tynnu allan o wersi ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 i ymestyn a herio eu dysgu mewn meysydd penodol fel llythrennedd neu rifedd. Mae rhai ysgolion yn gofyn am grantiau i ariannu rhaglenni a phrosiectau ar gyfer disgyblion mwy abl, ac os ydynt yn llwyddiannus, maent yn parhau â'r cyllid pan ddaw'r grant i ben. Mae'r ffaith fod staff ar gael yn hawdd yn ystod amser cinio ac ar ôl yr ysgol yn ffactor allweddol wrth ddarparu cymorth ychwanegol. Mae ysgolion sy'n darparu llwybrau dysgu personol ar gyfer disgyblion yn sicrhau bod cymorth ychwanegol yn gynhenid yn y cwricwlwm. Mae cymorth bugeiliol effeithiol gydag aelodau o'r uwch dîm rheoli, yn ogystal â staff a rhieni yn cydweithio, yn ffactor allweddol i sicrhau lles dysgwyr mwy abl a dawnus.

41 Mae **astudiaeth achos 8** yn **atodiad 1** yn dangos y modd y gwnaeth Ysgol Uwchradd Babyddol Rufeinig Sant Joseff yng Nghasnewydd ymestyn medrau llythrennedd disgyblion sy'n fwy abl a dawnus.

42 Mae disgyblion mwy abl a dawnus yn elwa'n sylweddol ar ddarpariaeth allgyrsiol ychwanegol sydd wedi'i hanelu'n benodol at ddatblygu eu galluoedd a'u doniau ac yn darparu cyfleoedd iddynt weithio gyda disgyblion eraill abl a dawnus. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau fel chwarae mewn cerddorfeydd sirol, astudio cyrsiau achrededig mewn colegau a phrifysgolion a gweithio ochr yn ochr ag artistiaid, beirdd ac awduron. Mae'r cwricwlwm 14-19 estynedig yn cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion

mwy abl a dawnus weithio ochr yn ochr â disgyblion mwy abl o ysgolion eraill a cholegau. Caiff disgyblion gyfleoedd da i fanteisio ar arweiniad penodol ynglŷn â dewis opsiynau a llwybrau gyrfa, gweithgareddau cyfoethogi priodol a chyrsiau galwedigaethol arbenigol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i fanteisio ar ddarpariaeth ychwanegol sy'n berthnasol i anghenion disgyblion mwy abl a dawnus yn amrywio'n fawr ar draws ysgolion uwchradd yng Nghymru.

43 Mae **astudiaeth achos 6** yn **atodiad 1** yn dangos y modd yr aeth Ysgol Gyfun Bro Myrddin yn Sir Gaerfyrddin ati i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 12.

44 Mae rhai ysgolion yn darparu seminarau a phecynnau adolygu da iawn sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer disgyblion mwy abl fel gweithdai A/A* TGAU. Maent hefyd yn trefnu ffug gyfweliadau ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 gan arbenigwyr yn y meysydd y mae disgyblion unigol yn dangos gallu neu ddawn ynddynt. Maent yn cynnig cymorth ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr Rhydychen a Chaergrawnt.

45 Roedd tua hanner y disgyblion a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn mai diffyg amser oedd y prif beth sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan yn y cyfleoedd a'r gweithgareddau cyfoethogi a gynigir. Roedd rhai disgyblion mwy abl a dawnus yn ei chael yn anodd gwneud dewisiadau, blaenoriaethu gweithgareddau allgyrsiol a rheoli amser ac yn gwerthfawrogi sesiynau cymorth neu fentora targedig gan staff hyfforddedig, i ddelio â'r problemau hyn.

Nodi, asesu ac olrhain

46 Mewn ysgolion lle mae disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni safonau uchel, mae'r broses nodi, asesu ac olrhain yn drylwyr ac yn cael ei hymgorffori'n dda. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio cyfuniad o asesu ffurfiannol, profion safonedig, arsylwi staff, barn broffesiynol, gwybodaeth gan ysgolion cynradd a holiaduron i ddisgyblion a rhieni i nodi a gwneud diagnosis o gryfderau a doniau penodol disgyblion mwy abl a dawnus. Pan na chaiff rhieni a disgyblion eu cynnwys yn y broses nodi, nid yw ysgolion bob amser yn ymwybodol o ddoniau pob un o'u disgyblion.

47 Mae **astudiaeth achos 2 yn atodiad 1** yn dangos y modd y gwnaeth Ysgol Gyfun Y Pant wella ei phroses nodi, asesu ac olrhain a'i darpariaeth ar gyfer grŵp o ddisgyblion mwy abl a dawnus ym Mlwyddyn 7.

48 Mae rhai o'r ysgolion uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt yn mynd i'r afael â'r broblem nad yw ysgolion cynradd yn nodi disgyblion mwy abl a dawnus yn ddigon cynnar ac nid ydynt bob amser yn defnyddio meini prawf cyson ar gyfer eu nodi trwy weithio gyda nhw i gytuno ar feini prawf nodi ar y cyd. Mae gan y mwyafrif o ysgolion uwchradd feini prawf clir ar gyfer nodi disgyblion mwy abl a dawnus, ac mae hyn yn cynnwys meini prawf sy'n benodol i bwnc sy'n cael eu llunio gan adrannau unigol mewn lleiafrif o ysgolion. Fodd bynnag, ar ôl eu nodi, nid yw ysgolion bob amser yn sicrhau bod gwybodaeth am alluoedd a doniau disgyblion yn cael ei rhannu gyda phob un o'r staff i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n briodol i gyflawni eu potensial ar draws y cwricwlwm.

49 Mae uwch reolwyr ac arweinwyr canol mewn lleiafrif o ysgolion yn dadansoddi data disgyblion, yn cynnwys data ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus, yn fanwl ac yn systematig. Maent yn nodi p'un a yw disgyblion ar y trywydd iawn neu'n tanberfformio ac yn gosod targedau sy'n briodol heriol a chymhellol ar draws pob cyfnod allweddol. Mae arfarniad trylwyr o ddata yn sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

50 Mae un ysgol y gwnaed arolwg ohoni yn bwriadu cyflwyno cynlluniau addysg unigol (CAUau) ar gyfer y disgyblion mwy abl a dawnus i gynorthwyo â monitro a dadansoddi effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r cynnydd a wna'r disgyblion hyn. Mae ysgol arall wedi cyflwyno cynllun her unigol (CHU) ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Mae hyn yn galluogi'r cydlynydd ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus i fonitro cynnydd disgyblion unigol yn effeithiol ac yn darparu sylfaen ar gyfer trafodaeth yn ystod sesiynau mentora'r cydlynydd gyda'r disgyblion.

51 Nid yw llawer o'r ysgolion yn olrhain disgyblion mwy abl a dawnus yn effeithiol fel grŵp o ddisgyblion.

Rôl rhieni a gofalwyr

52 Ychydig iawn o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg sy'n cynnwys rhieni yn y broses o nodi disgyblion mwy abl a dawnus neu'n cynnig cyngor i rieni ar sut i gefnogi eu plant. Mae tua hanner o'r ysgolion yn rhoi gwybod i rieni pan nodir bod disgyblion yn fwy abl a dawnus. Yn aml, caiff lleiafrif bach iawn o ddisgyblion a nodir gan ysgolion eu hannog yn ormodol gan eu rhieni i berfformio ar lefel sydd y tu hwnt iddyn nhw.

53 Mae llawer o ysgolion yn chwilio am ffyrdd priodol o gynyddu cysylltiad rhieni. Mewn un ysgol y gwnaed arolwg ohoni, caiff sesiynau seminar ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus eu gwerthfawrogi'n fawr gan rieni ac mae nifer dda yn eu mynychu. Mewn rhai ysgolion lle mae cyswllt agos gyda rhieni disgyblion mwy abl a dawnus, caiff rhieni eu cynnwys yn fawr iawn, ac maent yn aml yn cefnogi'r ysgol wrth gyflwyno gweithgareddau allgyrsiol. Mae un ysgol wrthi'n llunio cylchlythyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni disgyblion mwy abl a dawnus am ddatblygiadau, newyddion dathliadol a chyngor ar sut i gefnogi eu plant.

Yn ôl disgyblion mewn un ysgol, mae cysylltiad agos rhieni yn golygu nad yw rhieni yn mynd yn 'rhy ymwthgar'. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael a'r ffordd orau o'u cefnogi gartref. Mae disgyblion eraill yn gwerthfawrogi'r cyswllt agos gyda rhieni pan fydd pwysau o'r tu allan i'r ysgol ac o fewn yr ysgol yn mynd yn ormod iddynt. Mae hyn yn aml yn wir pan fyddant yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cyfoethogi.

3 Cymorth a her gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion

54 Mae gormod o amrywiad ledled Cymru o ran y cymorth a'r her a gynigir gan awdurdodau lleol. Mae gan rai awdurdodau lleol gydlynwyr effeithiol a phrofiadol gyda systemau sefydledig yn eu lle i gefnogi gwaith ysgolion yn y maes hwn. Mae gan bron bob awdurdod swyddog gwella ysgolion sydd â chyfrifoldeb cyffredinol i weithredu fel cydlynydd i wella cyflawniad disgyblion mwy abl a dawnus. Fodd bynnag, mae'r adnoddau a neilltuir i'w gwaith yn gyfyngedig, a newydd ddechrau ar eu swyddi y mae rhai cydlynwyr, ac nid yw'r ysgolion yn gwybod amdanynt. Ychydig iawn o gymorth penodol a gaiff y rhan fwyaf o ysgolion.

55 Mae lleiafrif o gydlynwyr awdurdodau lleol yn trefnu rhaglenni hyfforddi ar gyfer staff ysgol, gan ddefnyddio arbenigedd arbenigwr o NACE. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n cael ei groesawu a'i werthfawrogi gan gydlynwyr a staff mewn ysgolion uwchradd. Mae rhai awdurdodau yn defnyddio ysgolion sydd wedi ennill y Dyfarniad Her yn brif ffynhonnell cymorth ar gyfer ysgolion eraill.

56 Dim ond ychydig o ysgolion uwchradd yng Nghymru sydd wedi ennill Dyfarniad Her NACE, ac ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n mynd ati i annog ysgolion i gael eu hasesu. Teimla llawer ohonynt fod paratoi'r portffolios sy'n ofynnol fel rhan o'r broses asesu yn rhy feichus a chostus. Serch hynny, pan mae awdurdodau lleol wedi annog ysgolion i gael eu hasesu, mae wedi bod yn fuddiol ac wedi sicrhau bod yr ysgol gyfan wedi canolbwyntio ar addysgu a dysgu, darpariaeth a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.

57 Mae rhai awdurdodau lleol wedi ffurfio grwpiau ffocws sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod sut i wella darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd. Maent yn aml wedi'u cysylltu ag ymdrin â disgyblion mwy abl a dawnus yn yr ysgol gyfan, darpariaeth sy'n benodol i bwnc neu fedrau. Maent yn galluogi ysgolion i rannu arfer dda, datblygu polisïau, trefnu digwyddiadau arbennig a llunio deunyddiau hyfforddi ac adnoddau.

58 Mae **astudiaeth achos 1 yn atodiad 1** yn dangos sut y gwnaeth y grŵp ffocws gwyddoniaeth uwchradd a drefnwyd gan awdurdod lleol Caerffili helpu i rannu arfer a datblygu medrau disgyblion mwy abl a dawnus.

59 Mae bron pob awdurdod lleol yn cynnig ystod eang o weithgareddau ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Mae'r rhain yn cynnwys ensembles cerddoriaeth sirol, 'sgwadiau' ysgrifennu, theatr ieuenctid a gweithgareddau chwaraeon. Caiff llawer o'r gweithgareddau hyn eu cyflwyno gan athrawon arbenigol, beirdd, cerddorion ac arlunwyr lleol. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol wrthi'n lleihau nifer y cyrsiau oherwydd llai o gyllid. Mae nifer fach o ddisgyblion yn gweld bod cyllid, a chostau teithio yn bennaf, yn eu rhwystro rhag mynychu'r gweithgareddau ychwanegol hyn.

60 Mae gan awdurdodau lleol ystod o ddata o asesiadau athrawon ac arholiadau am gyflawniadau disgyblion mwy abl a dawnus. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol yn defnyddio'r data sydd ar gael iddynt yn ddigon effeithiol i arfarnu'r cynnydd a wna disgyblion mwy abl ar draws yr awdurdod a herio ysgolion.

4 Effaith strategaeth Llywodraeth Cymru

61 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus wedi cael effaith uniongyrchol ar y modd y mae mwyafrif o'r awdurdodau a'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion mwy abl a dawnus.

62 Yn 2006, neilltuodd Llywodraeth Cymru £50,000 i ddatblygu safonau ansawdd ar gyfer addysg disgyblion mwy abl a dawnus, a gyhoeddwyd yn 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog'. Fe wnaeth y cyllid hefyd ddarparu hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion, a chefnogi cost Y Dyfarniad Her a hyfforddiant ar gyfer aseswyr awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo £30,000 arall i hyrwyddo hyfforddiant a chymorth pellach, gan NACE, rhwng 2010 a 2013. Mae hyn wedi galluogi staff NACE Cymru, ynghyd ag Ymddiriedolwyr NACE, i lunio pecyn hyfforddiant o ddeunyddiau wedi'u seilio ar safonau ansawdd. Mae wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan gydlynwyr mwy abl a dawnus ac yn cynnwys chwe sesiwn ddatblygu ar gyfer staff, un ar gyfer rhieni ac un ar gyfer llywodraethwyr.

63 Mae'r arweiniad a'r safonau yn ffordd ymarferol i ysgolion ac awdurdodau lleol archwilio eu darpariaeth a chodi'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl a dawnus. Mae nifer gynyddol o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi'u defnyddio i godi proffil disgyblion mwy abl a dawnus. Fodd bynnag, nid yw rhai awdurdodau lleol a lleiafrif sylweddol o ysgolion wedi ymateb mor effeithiol ag y gallent i arweiniad Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, nid ydynt wedi gwneud digon o gynnydd yn gwella'r ddarpariaeth neu'n gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl a dawnus.

64 Darparwyd cynadleddau a hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru a NACE ac mae cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mynychu. Mae'r cynadleddau a'r hyfforddiant cenedlaethol hyn yn rhoi cyfleoedd da i ysgolion ac awdurdodau lleol rannu syniadau ac arfer orau a chodi cwestiynau gydag arbenigwyr yn y maes. Amrywiol fu effaith yr hyfforddiant hwn ar ysgolion. Pan mae ymgynghorwyr awdurdodau lleol wedi lledaenu cyngor a hyfforddiant yn llwyddiannus, mae ysgolion yn yr awdurdod wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer eu disgyblion mwy abl a dawnus. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw hyn wedi cael ei gynnal am fod personél a gafodd hyfforddiant yn wreiddiol wedi symud ymlaen ac nid yw eu holynwyr wedi cael hyfforddiant bob amser.

65 Defnyddir y safonau ansawdd yn dda bron ym mhob ysgol lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yn dda. Defnyddir dogfennaeth yn effeithiol i arwain a chefnogi staff yn eu gwaith gyda disgyblion mwy abl a dawnus. Mae uwch arweinwyr a chydlynwyr yn ei defnyddio i gynllunio deunyddiau hyfforddi, ac o ganlyniad, mae ysgolion ac athrawon wedi cael negeseuon cyson ynglŷn â sut i wella darpariaeth.

66 Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn defnyddio'r arweiniad fel offeryn hunanarfarnu i archwilio eu darpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. Dywed yr ysgolion hyn fod y safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn rhoi sylfaen gadarn iddynt weithio oddi wrthi. Yn yr ysgolion hyn, mae'r safonau ansawdd wedi canolbwyntio ymdrechion yr ysgol ar sicrhau safonau

uchel i ddisgyblion, gan ddod â staff at ei gilydd yn eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cysondeb ar draws yr ysgol, dathlu eu llwyddiant gyda rhieni a'r gymuned, a rhannu eu profiadau gydag ysgolion eraill.

67 Yn yr ysgolion a'r awdurdodau lleol mwyaf llwyddiannus, datblygwyd strategaethau i'w defnyddio gyda disgyblion mwy abl a dawnus dros gyfnod o sawl blwyddyn. Maent wedi defnyddio'r safonau ansawdd i helpu i archwilio a mireinio eu harferion ymhellach, ac mewn rhai achosion, maent yn paratoi ar gyfer asesiad ar gyfer y Dyfarniad Her.

68 Dim ond ychydig iawn o ysgolion uwchradd ledled Cymru sydd wedi dewis cael eu hasesu ar gyfer Dyfarniad Her y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg, a ddyfernir i ysgolion sy'n cyrraedd y safonau yn 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog' (Llywodraeth Cymru/y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg, 2008). Ar hyn o bryd, mae pedair ysgol uwchradd wedi ennill y Dyfarniad Her ac mae un o'r rhain wedi cael ei ail-achredu. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion sydd wedi cyflawni neu'n gweithio tuag at y Dyfarniad Her wedi datblygu darpariaeth dda, sydd weithiau'n rhagorol, sy'n arwain at welliannau yn safonau disgyblion bron ym mhob achos.

Atodiad 1

Astudiaeth achos 1: Cymorth awdurdod lleol i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd – awdurdod lleol Caerffili

Cyd-destun

Roedd rhan o raglen yr awdurdod i ddisgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion uwchradd ar gyfer 2010 i 2011 yn cynnwys datblygu medrau trwy raglen deilwredig o ddigwyddiadau gwyddoniaeth i'w chynnal mewn ysgolion lletyol.

Gweithgaredd

Ffurfiwyd gweithgor gan ymgynghorydd uwchradd yr awdurdod lleol gyda dau arweinydd pwnc ar gyfer gwyddoniaeth i drafod meysydd penodol sy'n gysylltiedig â meysydd astudio. Wedyn, fe wnaethant gyfarfod ag arweinwyr pwnc o bob un o'r ysgolion uwchradd yn yr awdurdod i drafod y gweithgareddau arfaethedig.

Roedd y digwyddiad cyntaf yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 10 ac wedi'i seilio ar y testun 'Yr Amgylchedd ac Anifeiliaid sydd mewn Perygl'. Aeth athrawon gyda disgyblion mwy abl a dawnus i ysgol letyol lle cawsant y cyfle i weithio gydag athrawon a disgyblion o ysgolion cyfagos. Fe wnaethant rannu gwybodaeth a syniadau ac ymchwilio a pharatoi ystod o ddeunyddiau y gellid eu hymgorffori mewn cyfres o wersi ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7. I'w cefnogi â'r dasg hon, cawsant gyfle i wrando ar arbenigwr blaenllaw ym maes gofalu am rywogaethau sydd mewn perygl ac fe gawsant brofiad uniongyrchol gydag anifeiliaid dethol. Fe wnaeth disgyblion sydd â diddordeb mewn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) dynnu lluniau o'r profiadau hyn a'u ffilmio, gan olygu a chreu DVD atebol a ymgorfforwyd yng ngwersi Blwyddyn 7.

Roedd ail ddigwyddiad yn cynnwys disgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 12 ac roedd wedi'i seilio ar y testun 'Grymoedd – Y Wyddoniaeth a'r Beirianneg sy'n gefndir i Hedfan Awyrennau'. Gweithredodd un ysgol uwchradd fel ysgol letyol a gweithiodd yr adran wyddoniaeth yn yr ysgol hon gyda'r disgyblion i archwilio dyluniadau awyrennau. Y targed ar gyfer y gweithgaredd oedd creu cyflwyniadau grŵp y gellid eu cyflwyno mewn ysgolion unigol a'u rhannu gyda phobl eraill. Trwy weithio mewn timau, aeth disgyblion ati i ymgymryd â gweithgareddau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunydd ffynhonnell, yn cynnwys animeiddiadau Rolls Royce ar y we, rhannau go iawn o awyrennau, awyrennau model sy'n cael eu rheoli gan radio a thaflenni gwybodaeth a baratowyd ymlaen llaw. Yn ystod y diwrnod, ymwelodd disgyblion â ffatri cynnal injans awyrennau lleol i siarad â phrentisiaid a holi cwestiynau a fyddai'n eu helpu i wella eu dealltwriaeth o hedfan a chwblhau eu cyflwyniadau grŵp. Rhoddwyd cyfle i ddisgyblion archwilio deunyddiau a ddefnyddir i adeiladu corff awyren a'r injans hefyd ac ystyried gyrfa fel peiriannydd awyrennau.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- ymrwymiad yr awdurdod lleol i addysg disgyblion mwy abl a dawnus;
- y cymorth a roddir gan ymgynghorydd/cydlynydd yr awdurdod lleol i wella cynllunio a darpariaeth ysgol gyfan ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus; a
- lefelau cynyddol o her mewn ysgolion ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae mwy o gydweithio rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgolion a rhwng ysgolion eu hunain o ran cynllunio, datblygu ac arfarnu cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl a dawnus ddatblygu eu doniau a'u medrau;
- datblygir cysylltiadau da â'r gymuned sydd wedi'u hanelu at gefnogi datblygiad medrau disgyblion;
- mae mwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff yn yr ysgolion o anghenion disgyblion a'r cyfleoedd y mae angen iddynt eu darparu ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion; ac
- mae ysgolion yn trefnu darpariaeth dda neu well ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus, sy'n arwain at safonau gwell.

Astudiaeth achos 2: Nodi, asesu, olrhain a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer grŵp o ddisgyblion mwy abl a dawnus ym Mlwyddyn 7 rhwng 2006 a 2011 – Ysgol Gyfun Y Pant

Cyd-destun

Ysgol gymysg cyfrwng Saesneg 11-18 yn Rhondda Cynon Taf yw Ysgol Gyfun Y Pant, sydd â 1,256 o ddisgyblion ar y gofrestr. Nodwyd bod tri deg y cant o ddisgyblion yn fwy abl a dawnus. Mae'r ysgol wedi cael Dyfarniad Her NACE.

Gweithgaredd:

- yn 2006-2007, cafodd grŵp o ddisgyblion mwy abl a dawnus ym Mlwyddyn 7 eu nodi a'u tynnu allan o wersi am awr bob pythefnos ar gyfer mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth;
- yn 2007-2008, sefydlodd yr ysgol weithgor llwyddiannus ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus i weithio ochr yn ochr â fforymau addysgu a dysgu'r ysgol;
- yn ystod 2008-2009, lluniodd yr ysgol ei chofrestr gyntaf o ddisgyblion mwy abl a dawnus a darparwyd hyfforddiant ysgol gyfan ar gyfer staff ar greu profiadau dysgu mwy heriol i ddisgyblion mwy abl a dawnus;
- o 2007 ymlaen, sefydlodd yr ysgol gysylltiadau gydag ysgolion eraill a gyda NACE Cymru;
- o 2009 ymlaen, cyflwynwyd cynllun mentora pendant;

- o 2009 ymlaen, cafodd lefel yr her a ddarperir ar gyfer y grŵp o ddisgyblion sy'n fwy abl a dawnus ei monitro'n agos gan yr ysgol; ac
- yn 2010-2011, rhoddwyd gwybod i rieni a gofalwyr y disgyblion yn y grŵp eu bod wedi cael eu rhoi ar gofrestr disgyblion mwy abl a dawnus yr ysgol.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- olrhain grŵp o ddisgyblion mwy abl a dawnus ar draws yr ysgol;
- mentora targedig ar gyfer grŵp o ddisgyblion mwy abl a dawnus;
- darpariaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus;
- dulliau addysgu a dysgu creadigol ac arloesol;
- ffocws ysgol gyfan ar ddisgyblion mwy abl a dawnus;
- cysylltiadau cryf gydag ysgolion yn yr awdurdod, mewn awdurdodau eraill yng Nghymru ac ysgolion mewn gwledydd eraill; a
- chysylltiadau agos gyda NACE Cymru.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- cafodd 15% o'r disgyblion 10 gradd A ac A* mewn TGAU yn 2011;
- mae gwelliant nodedig wedi bod yn lefel hyder a dyheadau'r disgyblion; ac
- ehangwyd gweithgareddau cyfoethogi ac allgyrsiol.

Astudiaeth achos 3: Darpariaeth garlam mewn Cymraeg ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus – Ysgol Gyfun Treorci

Cyd-destun

Mae 1,597 o ddisgyblion o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol ar gofrestr Ysgol Gyfun Treorci yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm heriol ar gyfer pob un o'i disgyblion. Nodwyd bod dau ddeg pump y cant o ddisgyblion yn fwy abl a dawnus mewn meysydd amrywiol o'r cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi cael ailachrediad am Ddyfarniad Her NACE.

Gweithgaredd

Mae'r ysgol yn cyflogi dau athro Cymraeg sy'n gweithio yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg lleol. Mae'r athrawon hyn yn nodi tua 40 o ddisgyblion Blwyddyn 6 bob blwyddyn sy'n fwy abl mewn Cymraeg, yn ogystal â meysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae'r disgyblion hyn yn dilyn y 'cwrs carlam', sef system llwybr carlam ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9. Nid oes mwy na 20 o ddisgyblion ym mhob dosbarth fel arfer. Mae disgyblion yn astudio'r dyniaethau, addysg gorfforol ac addysg bersonol a chymdeithasol yn ddwyieithog, ac fe gynigir pynciau ychwanegol iddynt, fel Sbaeneg. Maent yn sefyll rhai pynciau TGAU yn gynnar: Cymraeg ail iaith a Sbaeneg ym Mlwyddyn 9; mathemateg ym Mlwyddyn 10; a Chymraeg ail iaith UG ym Mlwyddyn 11.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion ennill cymwysterau ychwanegol oherwydd eu gallu i sefyll rhai arholiadau TGAU a Safon UG yn gynnar;
- lefel uwch y rhuglder yn y Gymraeg a gyflawnir gan leiafrif sylweddol o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn nag y byddent yn ei chyflawni mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg draddodiadol; a
- chyflawni lefelau uwch o fedrau cyfathrebu llafar mewn Cymraeg a Saesneg gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n derbyn y ddarpariaeth hon.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- Mae deilliannau TGAU ar gyfer y disgyblion hyn yn rhagorol. Yn 2011:
  - enillodd 91% o'r grŵp A*-C mewn mathemateg ym Mlwyddyn 10 (blwyddyn yn gynnar);
  - enillodd 100% A-B mewn Cymraeg ail iaith ym Mlwyddyn 9 (dwy flynedd yn gynnar); ac
  - enillodd 90% gymhwyster mewn Cymraeg ail iaith UG (blwyddyn yn gynnar).

Astudiaeth achos 4: Trefniadau pontio a nodi disgyblion mwy abl a dawnus – Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Cyd-destun

Ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed yw Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Mae'r ysgol ym Mro Morgannwg ac mae 837 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i herio pob disgybl i gyflawni'r safonau uchaf. Nodwyd bod pedwar deg y cant o'r disgyblion yn fwy abl a dawnus. Mae'r ysgol wedi cael Dyfarniad Her NACE.

Gweithgaredd

Mae trefniadau pontio rhagorol o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 yn cynnwys:

- trosglwyddo data cyrhaeddiad, sy'n cael ei ddefnyddio'n dda gan yr ysgol uwchradd;
- athrawon Blwyddyn 6 yn nodi disgyblion sy'n fwy abl a/neu ddawnus;
- rhoi cyfle i rieni disgyblion Blwyddyn 6 nodi meysydd lle mae eu plentyn yn meddu ar allu neu ddawn benodol;
- profiadau a gweithdai dysgu ar y cyd ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ar draws cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3; a
- thridiau o bontio thematig, sy'n helpu athrawon yn yr ysgol uwchradd i nodi disgyblion mwy abl a dawnus.

Yng nghyfnodau allweddol 3, 4 a 5, mae athrawon yn defnyddio meini prawf sy'n benodol i bwnc i barhau i nodi disgyblion mwy abl. Mae gan yr ysgol gofrestr o ddisgyblion mwy abl a dawnus, sy'n cael ei rhannu gyda phob un o'r staff. Dywedir wrth rieni os nodir bod eu mab neu'u merch yn fwy abl neu ddawnus; rhoddir gwybod iddynt yn llawn am eu cynnydd ac maent yn deall beth yw'r ffordd orau y gallant gefnogi addysg eu plentyn yn well.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- perthynas ragorol gyda'r ysgolion cynradd;
- trefniadau pontio llwyddiannus ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus;
- gweithdrefnau nodi rhagorol; a
- chysylltiad llwyddiannus rhieni wrth nodi disgyblion mwy abl a dawnus ac addysg eu plant.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae disgyblion mwy abl yn cyflawni lefelau sydd ymhell uwchlaw'r lefelau disgwyliedig ar gyfer eu hoedran;
- yn 2011, cyflawnodd 90% o'r disgyblion mwy abl lefel 7 ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 ym mhob pwnc a chyflawnodd 14% lefel 8;
- mae doniau mewn meysydd sy'n cynnwys cerddoriaeth, drama a chwaraeon, wedi cael eu datblygu'n eithriadol o dda; ac
- mae disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni eu llawn botensial.

Astudiaeth achos 5: Cwricwlwm carlam ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus mewn mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 – Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

Cyd-destun

Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig 11-18 yng Nghaerffili yw Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae 1,432 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae'r ysgol mewn ardal lle mae llawer o amddifadedd cymdeithasol. Nodwyd bod ugain y cant o'r disgyblion yn fwy abl a dawnus.

Gweithgaredd

Nododd yr ysgol fod 20 o ddisgyblion mwy abl a dawnus mewn gwyddoniaeth a mathemateg ym mhob un o Flynyddoedd 7, 8 a 9. Mae 62 o ddisgyblion yn cymryd rhan a 38 o'r rhain yn ferched. Cânt eu haddysgu ar wahân fel grŵp 'STEM' (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg), ar yr un pryd ag y mae eu grŵp tiwtor yn cael mathemateg a gwyddoniaeth. Caiff y rhain eu haddysgu gan athrawon benywaidd sy'n gweithredu fel modelau rôl.

Nodweddion da a rhagorol

Dyma'r nodweddion da a rhagorol:

- mae tasgau'n estynedig a heriol;
- mae disgyblion yn ymdrin â chwricwlwm cyfan cyfnod allweddol 3 ym Mlynyddoedd 7 ac 8 mewn gwyddoniaeth ac yn cynnal arbrofion mwy arbenigol ym mlynyddoedd 7 ac 8 yn barod ar gyfer cyrsiau gwyddoniaeth TGAU ym Mlwyddyn 9;
- mae clwb STEM amser cinio a heriau STEM;
- mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau gyda Phrifysgol Morgannwg ac mae 13 disgybl yn mynychu cwrs preswyl tridiau yn y brifysgol; ac
- fe gaiff disgyblion gyfleoedd i gymryd rhan mewn cystadlaethau mathemateg prifysgolion a gwobr CREST.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae cyfranogiad gyda phynciau STEM wedi cynyddu;
- codir dyheadau disgyblion;
- gwelir effaith glir a phendant ar safonau;
- ar ddiwedd Blwyddyn 9, cyflawnodd pob disgybl lefel 7 neu'n uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth (cyflawnodd dau ddisgybl lefel 8 mewn mathemateg a chyflawnodd 13 disgybl lefel 8 mewn gwyddoniaeth); ac
- mae canlyniadau ar ffiseg modiwl 1 a bioleg modiwl 1 ar ddiwedd Blwyddyn 9 yn rhagorol.

Astudiaeth achos 6: Ymestyn a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 12 – Ysgol Gyfun Bro Myrddin

Cyd-destun

Ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig 11-18 yw Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin sydd â 900 o ddisgyblion ar y gofrestr. Nodwyd bod ugain y cant o'r disgyblion yn fwy abl a dawnus.

Gweithgaredd

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â Phrifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant i ymestyn a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus:

- mae disgyblion ym Mlynyddoedd 11 a 12 sy'n fwy abl a dawnus mewn drama, Cymraeg, Saesneg, TGCh a cherddoriaeth yn cael y cyfle i astudio cwrs lefel 4 'Creu Cymru Greadigol' i ddatblygu eu medrau creadigol; ac
- mae disgyblion ym Mlwyddyn 12 yn cael y cyfle i astudio cwrs lefel 4 'Anelu'n Uchel' i ddatblygu eu medrau llythrennedd ymhellach.

Nodweddion da a rhagorol

Mae nodweddion da a rhagorol y cwrs 'Creu Cymru Greadigol' yn cynnwys:

- mae disgyblion yn datblygu medrau da mewn sgriptio, creu, golygu, cyfathrebu, cyflwyno, ffilmio a TGCh.

Mae nodweddion da a rhagorol y cwrs 'Anelu'n Uchel' yn cynnwys:

- mae disgyblion yn datblygu medrau da mewn ysgrifennu, cyflwyno gwybodaeth, gwaith ymchwil, cyfeirio a meddwl beirniadol.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith a gwblhawyd ar y cwrs 'Creu Cymru Greadigol':

- mae llawer o ddisgyblion yn ennill y cymhwyster lefel 4;
- mae rhai disgyblion yn ennill cymhwyster lefel 4 ym Mlwyddyn 11;
- mae disgyblion yn dangos cyrhaeddiad gwell ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13; ac
- mae disgyblion wedi'u paratoi'n well ar gyfer addysg uwch.

O ganlyniad i'r gwaith a gwblhawyd ar y cwrs 'Anelu'n Uchel':

- mae llawer o ddisgyblion yn ennill cymhwyster lefel 4;
- mae disgyblion yn gwella eu medrau ysgrifennu estynedig a dangosir hyn mewn gwaith cwrs ac yn asesiadau Bagloriaeth Cymru; ac
- mae disgyblion sy'n astudio gwyddoniaeth yn gwella eu medrau ysgrifennu.

Astudiaeth achos 7: Gweithgaredd 1 datblygiad cwricwlwm targedig ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus mewn gwyddoniaeth a gweithgaredd 2 cyflwyno amrywiaeth o fentrau 'cyllid sbarduno' ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus – Ysgol Trecelyn

Cyd-destun

Ysgol gymysg gymunedol 11-16 yw Ysgol Trecelyn, sydd ag 877 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i lwyddiant a rhagoriaeth yr holl ddisgyblion. Gwelir hyn yn arwyddair yr ysgol – ysbrydoli, llwyddo, rhagori – ac mae'n ategu ffocws yr ysgol ar ddeilliannau, dysgu a chyfleoedd. Ymgorfforir y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus o fewn yr ethos hwn.

Gweithgaredd 1

Dadansoddodd yr ysgol dueddiadau tair blynedd mewn gwyddoniaeth dyfarniad deuol TGAU ac yn dilyn trafodaethau gyda disgyblion mwy abl a dawnus, rhieni a staff, nododd y pennaeth gwyddoniaeth a chydlynydd yr ysgol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus fod angen rhoi mwy o her i ddisgyblion mwy abl.

Newidiwyd y model cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 i alluogi disgyblion mwy abl a dawnus i ddewis pwnc gwyddoniaeth TGAU ychwanegol. Astudiodd y disgyblion ddau bwnc gwyddoniaeth ar wahân mewn gwersi gwyddoniaeth dyfarniad deuol, ac astudiwyd y trydydd pwnc gwyddoniaeth fel opsiwn ychwanegol. Roedd y dosbarthiadau gwyddoniaeth greiddiol ac opsiynol yn rhai gallu cymysg, ac er bod y newid yn y cwricwlwm wedi'i anelu at ddisgyblion mwy abl a dawnus yn bennaf, gallai pob disgybl ddewis trydydd pwnc gwyddoniaeth TGAU.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- ethos cryf o ddisgwyliadau uchel a safonau uchel disgyblion mwy abl a dawnus;
- dealltwriaeth ar y cyd disgyblion, rhieni a staff fod disgyblion mwy abl a dawnus yn cael eu herio a'u cefnogi i gyflawni eu llawn botensial; a
- deilliannau gwell ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae canlyniadau yn y tri phwnc gwyddoniaeth ar wahân mewn arholiadau TGAU wedi bod yn rhagorol, ac mae lefelau cyfartalog graddau 'A*/A' ar draws y tri phwnc ar wahân bron yn 50%; a
- gwelwyd cynnydd yn nifer y disgyblion mwy abl a dawnus sy'n symud ymlaen i astudio gwyddoniaeth mewn addysg bellach.

Gweithgaredd 2

Roedd yr ysgol am gynyddu'r gweithgareddau cyfoethogi ac allgyrsiol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.
Yn dilyn trafodaeth gyda staff a disgyblion, darparodd yr ysgol swm bach o 'gyllid sbarduno' ar gyfer mentrau a fyddai'n gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus. O ganlyniad, cyflwynwyd amrywiaeth o fentrau cyfoethogi. Roeddent yn cynnwys:

- cynhyrchiad cymdeithas ddrama Gŵyl Shakespeare Genedlaethol;
- gweithdy creu gemwaith gydag artist preswyl; a
- bardd preswyl yn gweithio gyda disgyblion mwy abl a dawnus i greu llyfrau barddoniaeth disgyblion.

Yn dilyn cyllid cychwynnol, roedd gwerthiannau'r perfformiad a gwerthiannau cynnyrch o bob un o'r mentrau hyn yn enillion cost lawn i'r ysgol. Mae'r arian a godwyd yn awr yn cael ei ddefnyddio i ymestyn gweithgareddau cyfoethogi 'cyllid sbarduno' ymhellach ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus/pob disgybl.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- ethos cryf yr ysgol o ddisgwyliadau uchel a safonau uchel; a
- dealltwriaeth ar y cyd disgyblion, rhieni a staff y bydd disgyblion mwy abl a dawnus yn cael eu herio a'u cefnogi i gyflawni eu llawn botensial.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth well ar gyfer ystod ehangach o ddisgyblion mwy abl a dawnus;
- mae llawer o fentrau'r 'cyllid sbarduno' wedi cael eu hymgorffori yng ngweithgareddau cyfoethogi'r ysgol ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus/pob disgybl; ac
- mae bron pob un o'r disgyblion yn cynnal eu diddordeb ymhellach na cham y 'cyllid sbarduno' yn y mentrau newydd hyn, gan wella eu cymhelliant, eu dysgu annibynnol a'u cyfleoedd ar gyfer dilyniant ymhellach.

Astudiaeth achos 8: Ymestyn medrau llythrennedd disgyblion sy'n fwy abl a dawnus yn Ysgol Uwchradd Babyddol Rufeinig Saesneg Sant Joseff

Cyd-destun

Mae Ysgol Uwchradd Babyddol Rufeinig Sant Joseff yng Nghasnewydd, ac mae 1,500 o ddisgyblion o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol ac ethnig ar y gofrestr. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu profiadau dysgu unigol ar gyfer pob disgybl.

Gweithgaredd

Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwyydd addysgu lefel uwch i ymestyn medrau llythrennedd disgyblion sy'n fwy abl a dawnus mewn Saesneg. Mae'r cynorthwyydd yn ymweld â phob ysgol gynradd bartner ac yn gweithio'n agos gydag athrawon cynradd i nodi disgyblion Blwyddyn 6 sy'n fwy abl a dawnus mewn Saesneg. Caiff canlyniadau'r profion darllen a data ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 eu dadansoddi yn ystod y broses nodi hefyd. Mae'r cynorthwyydd yn tynnu'r disgyblion allan o wersi mewn grwpiau ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 i astudio amrywiaeth o lenyddiaeth ychwanegol i ymestyn eu medrau meddwl a datblygu eu medrau llythrennedd lefel uwch.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- defnydd effeithlon o adnoddau er budd disgyblion mwy abl a dawnus;
- defnydd effeithiol o ddata cyfnod allweddol 2 a gwybodaeth bontio i dargedu disgyblion mwy abl;

- darparu gweithgareddau llythrennedd sy'n briodol heriol sy'n cynnal diddordeb disgyblion mwy abl; a
- chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion mwy abl ddarllen a thrafod amrywiaeth eang o lenyddiaeth y tu allan i'w profiad arferol mewn grwpiau bach, ffocysedig.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn Saesneg trwy gydol cyfnod allweddol 3 ac yn cyflawni safonau uchel mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu; ac
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r grwpiau hyn yn mynd ymlaen i gyflawni A* mewn Saesneg mewn TGAU.

Astudiaeth achos 9: Cyflwyno seryddiaeth TGAU yng nghwricwlwm yr ysgol – Ysgol Uwchradd Castell Alun

Cyd-destun

Mae 1,330 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Uwchradd Castell Alun yn Sir y Fflint. Daw disgyblion o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol ac mae lleiafrif sylweddol o deuluoedd breintiedig. Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm estynedig trwy weithio mewn partneriaeth agos â darparwyr lleol eraill.

Gweithgaredd

Mae athro gwyddoniaeth sydd â diddordeb arbennig mewn seryddiaeth yn addysgu seryddiaeth TGAU i grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 y nodwyd eu bod yn fwy abl a dawnus mewn gwyddoniaeth. Cynhelir gwersi ar ôl yr ysgol ddeuddydd yr wythnos. Hon yw'r bedwaredd flwyddyn i'r cwrs gael ei gynnal, ac eleni mae wedi denu 27 o ddisgyblion, 22 o Gastell Alun a phum disgybl o ysgolion uwchradd lleol eraill. Mae'r athro wedi caffael cyfanswm o £2,500 mewn grantiau i brynu offer ac adnoddau. Mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau cryf a phroffesiynol gydag addysgwyr gwyddoniaeth o'r Sefydliad Ffiseg, yr Arsyllfa Ysgolion Genedlaethol a'r Gymdeithas Seryddol Frenhinol. Mae'r cysylltiadau hyn yn gwella profiad y disgyblion sy'n cymryd rhan yn sylweddol.

Nodweddion da a rhagorol

Mae'r nodweddion da a rhagorol yn cynnwys:

- defnydd effeithiol o ddiddordebau, gwybodaeth a medrau staff;
- disgwyliadau uchel o'r disgyblion sy'n cael heriau cymhleth a gwyddonol;
- lefel uchel o ymrwymiad gan y disgyblion sy'n cymryd rhan;
- cyfleoedd i wyddonwyr mwy abl a dawnus weithio gyda'i gilydd i ddatblygu medrau datrys problemau a meddwl lefel uwch; a
- darparu hyfforddiant a chymorth mewn addysgu seryddiaeth TGAU mewn ysgol uwchradd leol arall, ac yn sgil hyn, mae 15 o ddisgyblion mwy abl a dawnus o'r ysgol arall wedi dilyn y cwrs o Fedi 2011.

Effaith a budd

O ganlyniad i'r gwaith hwn:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n sefyll yr arholiad TGAU mewn seryddiaeth yn cael graddau 'A*-B';
- mae disgyblion sy'n dilyn y cwrs seryddiaeth yn cael canlyniadau gwell mewn mathemateg a ffiseg;
- aeth un disgybl o'r grŵp cyntaf i astudio seryddiaeth ymlaen i astudio ffiseg a seryddiaeth yn y brifysgol; a
- dewiswyd un disgybl i roi tystiolaeth yng ngwrandawiad y Pwyllgor Dethol Seneddol ar ddyfodol Seryddiaeth a Ffiseg Gronynnau.

Atodiad 2

Sail y dystiolaeth

Wrth lunio'r adroddiad hwn, defnyddiwyd tystiolaeth arolygu o adroddiadau arolygu uwchradd a data ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 ar gyfer y cyfnod 2008-2011 ac ystyriwyd data cyfnod allweddol 4 ar gyfer y cyfnod 2009-2011.

Ymwelwyd sampl gynrychioliadol o 15 ysgol uwchradd ledled Cymru ac ymwelwyd â phump o awdurdodau lleol ac ystyriwyd tystiolaeth ysgrifenedig o'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cafwyd safbwyntiau disgyblion trwy ofyn i sampl o ddisgyblion ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw lenwi holiaduron a thrwy siarad â sampl o ddisgyblion yn ystod yr ymweliadau. Casglwyd safbwyntiau rhieni trwy siarad â sampl o rieni yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Cyfwelwyd â chynrychiolydd o'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg (NACE).

Adolygwyd y llenyddiaeth ganlynol:

- 'Cwricwlwm o Gyfle: Datblygu Potensial yn Berfformiad' (ACCAC 2003);
- 'Cyflawni'r Her: Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog' (LIC/NACE 2008);
- Bradshaw, J., Sturman, L., Vappula, V., Ager, R. a Wheater, R. (2007). 'Cyflawniad disgyblion 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2006 (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr OECD)' Slough: NFER;
- Bradshaw, J., Ager, R., Burge, B. a Wheater, R. (2010). PISA 2009: 'Cyflawniad disgyblion 15 oed yng Nghymru'. Slough: NFER;
- Adroddiad PISA 2006 a 2010;
- Astudiaethau achos NACE o ysgolion yng Nghymru sydd wedi ennill Dyfarniad Her NACE neu'n gweithio tuag ato; ac
- Arfarniadau NACE o'r rhaglen hyfforddi a ddarperir ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.

Cafwyd gwybodaeth gan wledydd Ewropeaidd sy'n aelodau o'r Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog o Arolygiaethau.

Adroddiadau perthnasol diweddar Estyn

- ‘Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd’ (Estyn 2011)
- ‘Arloesedd yng nghyfnod allweddol 3’ (Estyn 2010);
- ‘Sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial: arfarniad o strategaethau awdurdodau lleol’ (Estyn 2010);
- ‘Cynlluniau a grant pontio: arfarniad o effaith cynlluniau pontio ar bartneriaethau ysgolion cynradd ac uwchradd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3’ (Estyn 2010);
- ‘Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3’ (Estyn 2010);
- ‘Adroddiad ar ansawdd hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn anghenion dysgu ychwanegol a gweithio gydag eraill’ (Estyn 2009);
- Adroddiad Blynyddol Estyn 2009, 2010 a 2011; ac
- ‘Arweiniad atodol i arolygwyr: dysgwyr mwy galluog a thalentog’ (Estyn 2010).

Atodiad 3 – Sut y mae gwahanol wledydd a rhanbarthau Ewropeaidd yn cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus – Yr Iseldiroedd, Yr Alban, Malta a Gogledd Rhein-Westffalia

Mae llawer o’n cymheiriaid Ewropeaidd yn chwilio am y ffordd fwyaf effeithiol o addysgu eu disgyblion mwy abl a dawnus hefyd. Mae’r strategaethau isod yn gymharol newydd. O ganlyniad, ni ellir llunio casgliadau pendant am lwyddiant cymharol y gwahanol ddulliau.

Gall disgyblion yn Yr Iseldiroedd rhwng pedair a 12 oed y mae eu IQ yn 130 neu’n uwch fynychu ysgol Leonardo. Mae cwricwlwm Leonardo wedi’i gynllunio i fod yn addas ar gyfer diddordebau a galluoedd y disgyblion abl iawn hyn. Mae’r ysgol yn defnyddio athrawon arbenigol i ddarparu gwersi mewn Saesneg o bedair blwydd oed a Sbaeneg o wyth mlwydd oed, yn ogystal ag athroniaeth, cyfrifiadureg, mathemateg, busnes a menter. Mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau am yr hyn y mae arnynt eisiau ei ddysgu, a rhoddir pwyslais ar ddysgu’r disgyblion i ddysgu. Mae gwersi mewn medrau cymdeithasol, cerddoriaeth a dawns yn nodweddion pwysig o’r cwricwlwm ac mae disgyblion yn dysgu chwarae gemau strategaeth, fel gwyddbwyll. Mae’r ysgol yn rhoi gliniadur gyda mynediad diwifr i’r rhyngrwyd i’r disgyblion ei ddefnyddio yn yr ysgol a gartref i wella eu medrau TG ac annog defnydd o’r cyfryngau newydd.

Yn Yr Alban, anogir ysgolion i fodloni anghenion disgyblion mwy abl a dawnus yn y dosbarth trwy weddu’r gwaith yn agos i’w hanghenion a’u galluoedd. Mae Prifysgol Glasgow yn rhoi cymorth i athrawon, disgyblion mwy abl a’u teuluoedd trwy wefan Rhwydwaith Yr Alban ar gyfer Disgyblion Abl (SNAP). Maent yn cynnig cyngor i ysgolion ac athrawon ar sut i roi her briodol a chynnal ymchwil a lledaenu cyllid i’r gymuned addysgol yn Yr Alban a thu hwnt. Mae chwe chanolfan ragoriaeth yn Yr Alban, sef ysgolion sy’n galluogi disgyblion mwy abl a dawnus i wneud y mwyaf o’u potensial. Mae’r canolfannau wedi’u lleoli mewn ysgolion cyfun lle caiff disgyblion addysg gyffredinol eang tra byddant yn cael amser ychwanegol ar gyfer astudio arbenigol.

Ym Malta, mae rhaglen arbenigol ar gyfer disgyblion sydd â diddordeb a dawn frwd am fathemateg. Mae'r gweithgareddau, a drefnir mewn cydweithrediad â'r Adran Fathemateg, y Gyfadran Wyddoniaeth, Prifysgol Malta yn darparu profiadau dysgu uniongyrchol ar gyfer y disgyblion hyn sy'n cyflawni'n uchel. Mae'r testunau a gyflwynir yn targedu gwahanol agweddau ar fathemateg nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm mathemateg i ysgolion uwchradd. Ar hyn o bryd, mae tua 120 o ddisgyblion yn ysgolion y wladwriaeth ac mewn ysgolion nad ydynt yn eiddo i'r wladwriaeth yn mynychu'r gweithgareddau hyn sy'n para dwy awr, sydd wedi'u gwasgaru ar draws chwe sesiwn dros y flwyddyn ysgol. Ar ddiwedd pob blwyddyn, rhoddir tystysgrif i ddisgyblion sydd wedi mynychu'n rheolaidd. Ym Malta, mae cwricwlwm newydd yn cael ei ysgrifennu, sydd wedi'i fwriadu i godi lefel cyrhaeddiad pob disgybl. Mae'r cysyniad traddodiadol o gael maes llafur sydd wedi'i amserlennu yn cael ei ddisodli gan y cysyniad o gwricwlwm a reolir. Bydd y cwricwlwm newydd yn annog amrywiaeth, dysgu sy'n canolbwyntio ar y disgybl a hunanasesu, a disgwylir iddo helpu athrawon i wella ansawdd eu haddysgu.

Yn nhalaith Gogledd Rhein-Westffalia yn Yr Almaen, disgwylir i ysgolion lunio rhaglenni cymorth unigol sydd wedi'u cyfeirio'n arbennig tuag at ddisgyblion sy'n fwy abl a dawnus. Mae gan lawer o ysgolion, yn enwedig ysgolion gramadeg Gymnasium, nifer o raglenni sydd wedi'u cynllunio i roi cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n cyflawni'n uchel. Maent yn cynnwys: addysgu ieithoedd ychwanegol; disgyblion yn mynychu dosbarth o flaen eu hamser ac yn gorffen cyrsiau yn gynnar; gwersi dwyieithog lle mae o leiaf un pwnc nad yw'n bwnc iaith fel hanes yn cael ei addysgu mewn iaith dramor; dosbarthiadau a phrofiadau cerddorol ychwanegol; ffocws ychwanegol ar fathemateg; peirianneg; gwyddorau naturiol; technoleg a chwaraeon. Gall disgyblion fynychu grwpiau prosiect ar draws yr ysgol a mynychu dosbarthiadau neu ddarlithoedd mewn prifysgol gyfagos ac ennill cymwysterau mynediad i brifysgol yn gynnar. Yn ystod y gwyliau, mae myfyrwyr yn mynychu 'academïau haf' lle caiff mathemateg, gwyddoniaeth a pheirianneg eu haddysgu ar lefel prifysgol.

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Meinir Rees	AEM
Sarah J Morgan	AEM
Sue Morgan	AY
Denise Wade	AY